# DWNN, GRUFFYDD (c. 1500 - c. 1570), g  r bonheddig

**Enw:** Gruffydd Dwnn
**Dyddiad geni:** c. 1500
**Dyddiad marw:** c. 1570
**Plentyn:** Harry Dwnn
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** g  r bonheddig
**Maes gweithgaredd:** Perchnogaeth Tir; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Garfield Hopkin Hughes

Yr enwocaf o Ddwniaid Sir Gaerfyrddin a'r cyntaf i fyw yn Ystrad Merthyr, ger Cydweli, plasty a godwyd yn 1518. Priododd ddwywaith, a bu iddo wyth o blant, yr hynaf ohonynt yn 11 oed yn 1533. Ond gwelodd ddryllio ei deulu gan heintiau mynych y cyfnod. Canodd beirdd fel Syr Owain ap Gwilym, Harri ap Rhys ap Gwilym, Tomas Fychan, William Ll  n, Gruffudd Hiraethog, Owain Gwynedd, etc., iddo ef, a'i blant, a'i gartref, a chedwir eu cerddi yn Llanstephan MS 40 a Llanstephan MS 133, ac N.L.W. MS. 728. Yr oedd yn fyw yn 1566 pan anerchwyd ef gan Wiliam Cynwal, ond ni chanodd un bardd iddo'n ddiweddarach.

Y mae Gruffudd Dwnn yn bwysig fel un o'r boneddigion a ymroes i gopïo a chasglu llawysgrifau yn yr 16eg ganrif a'r 17eg., er nad oes iddo enwogrwydd rhai fel John Jones, Gellilyfdy. Yr enghraifft orau o'i waith yw Llanstephan MS 40 a'r nodiadau yn Mostyn MS. 184, ond y mae tystiolaeth am lawysgrifau eraill a gollwyd. Bu llawysgrifau enwog yn ei feddiant, megis Hendregadredd, Peniarth 70 a 109, etc. Bu'n noddwr amlwg i'r beirdd, ond dylid sylwi i William Salesbury, hefyd, aros yn Ystrad Merthyr pan oedd yn Abergwili.

## Awdur

**Garfield Hopkin Hughes**, (1912 - 1969)

## Ffynonellau

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1941, 136-43

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, ix, 110

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Gruffydd Dwnn

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733113

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu